

Gwasanaeth Tân ac Achub  
**De Cymru**



**South Wales**  
Fire and Rescue Service

**GWASANAETH TÂN AC ACHUB DE CYMRU  
Y PENCADLYS, PARC BUSNES FOREST VIEW, LLANTRISANT**

**CYFARWYDDIAETH GWASANAETHAU CORFFORAETHOL**

**Peiriannydd TGCh  
Cyfnod penodol o ddwy flynedd  
37 AWR YR WYTHNOS  
CYFEIRNOD: 502946**

**GRADD 9  
CYFLOG: £28,226 - £30,095**

Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yw un o Wasanaethau Tân ac Achub mwyaf, mwyaf llwyddiannus ac uchaf ei berfformiad yn y DU, yn gwasanaethu 1.5 miliwn o bobl ar draws 10 Awdurdod Unedol Cyfansoddol yn ymestyn o Ben-y-bont ar Ogwr i Drefynwy ac o Fae Caerdydd i Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Mae technoleg yn gydran gritigol o sut mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n helpu darparu'i weithgareddau o ddydd i ddydd.

P'un ai wrth ddanfôn ein criwiau i ddigwyddiadau gweithredol, sicrhau bod ganddynt fynediad at wybodaeth risg critigol neu wrth gefnogi swyddogaethau'r swyddfa gefn wrth reoli a threfnu ein hadnoddau, mae technoleg yn cyffwrdd â phob rhan o'n Gwasanaeth.

Cododd swydd wag ar gyfer swydd Peiriannydd TGCh heriol ond gwobrwyol, ar contract cyfnod penodol o 2 flynedd, o fewn yr Adran TGCh.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn darparu gwasanaeth, cefnogaeth a chynghor ym mhob maes Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu; gan gynnwys hygyrchedd i ddefnyddwyr, caledwedd, meddalwedd a systemau TGCh critigol Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru.

Bydd y swydd heriol hon yn gofyn bod yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithio'n gydweithredol â phersonél Gwasanaethau Tân ac Achub eraill ac felly mae'r gallu i deithio'n ofynnol.

Sefydliad sy'n ystyriol o deuluoedd ydym a gweithredir polisi gweithio'n hyblyg.

Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus gymryd fod yn destun gwiriad boddhaol gan Wasanaeth Datgelu'r Alban ac ymgymryd â Phrawf Cyffuriau ac Alcohol cyn y gwneir unrhyw benodiad.

Gellir lawr lwytho Ffurflen Gais, Swydd Ddisgrifiad a Manyleb Person o dudalen Gyrfaoedd ein gwefan ar [www.decymru-tan.gov.uk](http://www.decymru-tan.gov.uk)

**Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw 12y.p ar 07.06.2022 Mae dyddiad y cyfweiliad eto i'w gadarnhau.**

Dylid dychwelyd ceisiadau gorffenedig at: Y Tîm Recriwtio ac Asesu, Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Parc Busnes Forest View, Llantrisant CF72 8LX. Nodwch nad ydym yn derbyn ffurflenni CV.

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg ac rydym yn croesawu cyfathrebu yn y ddwy iaith. Ni fydd ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol. Bydd ymgeiswyr sy'n llwyddo yn y cam Llunio Rhestr Fer yn cael cyfle i gadarnhau eu dewis iaith ar gyfer cyfweiliadau ac asesiadau (gan gynnwys gwaith papur, cyflwyniadau llafar a chwestiynau cyfweiliad). Bydd y trefniadau'n cael eu cadarnhau yn dilyn gwahoddiad i gyfweiliad a gellir darparu gwasanaeth Cyfieithu a/neu Gyfieithu ar y Pryd.

**Mae GTADC yn credu fod gwir werth mewn cael gweithlu amrywiol ac rydym am fod yn rhagweithiol wrth annog ymgeiswyr o bob sector o'n cymuned i ymgeisio.**

